ATODLEN 1

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 1

# RHAN 4

## Cyfyngiadau ar fusnesau a gwasanaethau penodol

**Cyfyngiadau ar fangreoedd trwyddedig**

**8.**—(1) Ni chaiff person sy'n gyfrifol am fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol werthu na chyflenwi alcohol rhwng 10.00 p.m. a 6.00 a.m.

(2) Pan fo'r fangre wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, o ran y person sy'n gyfrifol am y fangre—

(a) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a

(b) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf is-baragraff (2), caiff sinema neu theatr gau'n hwyrach na 10.20 p.m. ond dim ond at ddiben gorffen—

(a) arddangos ffilm, neu

(b) perfformiad,

sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys i—

(a) mangre mewn—

(i) porthladd môr;

(ii) maes awyr;

(iii) sefydliad addysgol;

(b) ffreuturau yn y gweithle.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre llety gwyliau neu lety teithio, nid yw is-baragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.

(7) Pan fo mangre reoleiddiedig nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre yn caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, mae is-baragraffau (2) i (4) yn gymwys i'r fangre honno fel y maent yn gymwys i fangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre.